



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Vaughan Gething
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

20ed Rhagfyr 2019

Annwyl Weinidog,

Mae'n bleser gennym amgau copi o Ddrafft Terfynol y Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu, '*Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*'. Cymeradwywyd y drafft terfynol hwn gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW) ar 12fed Rhagfyr 2019 a chan Fwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC/HEIW) ar 19eg Rhagfyr 2019.

Mae'r strategaeth yn nodi'r weledigaeth, yr uchelgais a'r dulliau gweithredu sydd eu hangen i roi lles wrth wraidd ein cynlluniau ar gyfer y gweithlu, gan adlewyrchu elfen graidd o'r Adolygiad Seneddol a Cymru Iachach, sef y 'Nod Pedwarplyg' i ddarparu gwasanaeth cynhwysol, ymrwymedig, gweithlu cynaliadwy, hyblyg ac ymatebol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rhagorol. Cydnabyddwn fod hon yn strategaeth uchelgeisiol.

Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar fframweithiau deddfwriaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'n derbyn y dystiolaeth a'r negeseuon allweddol o'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) a'ch dogfen bolisi strategol 'Cymru Iachach', y cafodd ein sefydliadau eu comisiynu drwyddi ar y cyd i arwain y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth yma. Nid yw'r strategaeth wedi ei chyfyngu i'r rolau a'r timau hynny sydd yn gweithredu wrth ryngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol ond am y gweithlu cyfan, gan gynnwys cymorth i wirfoddolwyr a chynhalwyr di-dâl, sydd yn hanfodol i lwyddiant.

Goruchwyliwyd y broses o ddatblygu'r strategaeth gan grŵp llywio a gadeiriwyd ar y cyd gan GCC ag AaGIC, gyda chynrychiolwyr o'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwyr Datblygu Sefydliadol Gweithlu'r GIG, a'ch swyddogion chi fel aelodau sefydlog.

Mae'r drafft terfynol hwn yn benllanw i dros flwyddyn o waith gan y ddau sefydliad ac mae'n un o'r ymarferion ymgysylltu mwyaf a wneir yn arena gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymreig. Dechreuodd y rhaglen o flwyddyn gydag ymgysylltu helaeth a

oedd yn cynnwys ymhell dros 1,000 o bobl, a helpodd i lunio cynnwys dogfen ymgynghori gyhoeddus a ryddhawyd yn ystod haf 2019. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, parhawyd i ymgysylltu â rhanddeiliaid i dynnu eu barn drwy gyfrwng gweminarau, arolygon ar-lein, mynychu rhwydweithiau a chyfarfodydd a siarad mewn cynadleddau. Cawsom 200 o ymatebion ffurfiol, yn ogystal â'r adborth a roddwyd mewn digwyddiadau. Yn gyfan gwbl, amcangyfrifwn fod tua 1,900 o bobl, gan gynnwys staff, cyrff proffesiynol ac undebau llafur, cyflogwyr, gyrfaoedd, cleifion, pobl sy'n cael gofal a chymorth, sefydliadau trydydd sector, comisiynwyr a gwirfoddolwyr wedi helpu i lywio'r Strategaeth hon, gyda'r mwyafrif llethol o blaid yr uchelgais, y themâu a'r dull a gynigir.

Rydym wedi nodi 7 thema graidd yn y strategaeth ddrafft gyda 32 o gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar 3 blynedd gyntaf y strategaeth gyda lles staff fel y llinyn aur sy'n rhedeg drwy gydol y broses, yn unol â 'Cymru Iachach' a'ch ymrwymiad i'r Nod Pedwarplyg. Yr ydym wedi egluro ein bod yn disgwyl i'r Gymraeg a chynhwysiant gael eu gwau i bob maes gweithredu, yn ogystal â nodi rhai camau penodol o fewn y strategaeth.

Credwn mai'r 32 cam allweddol yr ydym wedi'u nodi yw'r rhai cywir i gyflawni'r uchelgais erbyn 2030 o '*weithlu brwdfrydig, ymgysylltiol, cynaliadwy a hyblyg mewn iechyd a gofal cymdeithasol*'. Profwyd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y ddogfen ymgynghori gyhoeddus ac roeddent yn denu cryn gonsensws. Roedd hyn i raddau helaeth oherwydd ein bod wedi gwrandao ar yr hyn yr oedd pobl yn dweud wrthym yr oeddent am ei gael o'r strategaeth yn ogystal â seilio ein syniadau ar adolygiadau o lenyddiaeth ddiweddar, arferion da ac arloesedd, gwybodaeth am y gweithlu, tueddiadau'r gweithlu a goblygiadau'r gweithlu o ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol.

Mae rhywfaint o'r hyn a gynigir yn y Strategaeth hon eisoes ar y gweill, gan fod materion wedi'u cydnabod a champau cadarnhaol wedi'u cymryd; er enghraifft, dechreuodd y camau arweinyddiaeth ym mis Chwefror 2019. Mae rhai o'r camau gweithredu a gynigiwn yn y strategaeth hon yn radical, er enghraifft, cyflwyno fframwaith 'llywodraethu staff' (Cam Gweithredu 2), gweithio tuag at wobwr a chydabyddiaeth deg ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol (Cam Gweithredu 3), datblygu strategaeth i fframio ymagwedd gyson tuag at arweinyddiaeth dosturiol (Cam Gweithredu 25) a sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer gwybodaeth am y gweithlu (Cam Gweithredu 28). Bydd eraill yn adeiladu ar arferion cyfredol ac yn gwneud rhai o'r pethau yr ydym yn eu gwneud yn llawer gwell ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'n problemau a heriau'r gweithlu. Ein hargymhelliad yw y dylid adolygu ac adnewyddu'r camau gweithredu hyn ym mlwyddyn 3 a blwyddyn 6, fel ein bod yn dysgu ac yn adeiladu ar y camau gweithredu hyn yn barhaus ac yn gallu sicrhau bod y Strategaeth hon yn parhau i fod yn fyw yn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol sy'n newid yn gyson Cymru.

Ni fu'n bosibl cynnwys popeth yn y Strategaeth hon yn fanwl. Bydd y deunydd cyfoethog a'r corff o dystiolaeth, gan gynnwys camau gweithredol a gawsom gan gyfranwyr yn cefnogi'r broses o ddatblygu'r cynlluniau gweithredu, a byddant ar gael i bwy bynnag a fydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu i arwain y broses weithredu.

Yn ystod y prosiect, rydym wedi amlygu ar wahanol adegau, yr adborth sy'n dod i'r amlwg ynghylch gwerth y gweithlu a pharch cydradd. Hwn oedd y mater a godwyd amlaf, ond nid yn unig wedi'i gyfyngu i gyfranwyr gofal cymdeithasol ac nid yn gyfyngedig i delerau ac amodau cyflogaeth. Mae ein Byrddau wedi ystyried geiriad Cam Gweithredu 3 sy'n ymwneud â chydaddoldeb sy'n darllen 'gweithio tuag at wobwr a chydabyddiaeth deg ...' ac, ynghyd â chryfder y safbwyntiau gan ymatebwyr wedi gofyn i chi ystyried ymrwymo i 'sicrhau gwobr deg a chyson' neu 'gweithredu gwobrwyo teg a chyson ...'. Cydnabyddwn fod hwn yn fater polisi ac yn un y bydd angen ichi gymryd safbwynt arno (Cymru Decach).

Tynnwyd sylw eich swyddogion hefyd at lle bydd angen barn polisi ar weithredu. Fe'n cynghorwyd bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda chynghorwyr arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys y galluogwyr e.e. telerau ac amodau ac arferion comisiynu, yn ogystal â chynyddu a chydaddoli datblygiad proffesiynol parhaus ar draws proffesiynau.

Rydym yn bendant o'r farn bod angen un mecanwaith cenedlaethol ar gyfer dal y cylch ar ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu. Byddem yn croesawu eglurhad o'ch bwriadau o ran cyhoeddi'r strategaeth a'i rhoi ar waith – yn enwedig o ran amserlenni ac arweinyddiaeth y ddarpariaeth. Mae'n amlwg bod taer angen gweithredu ar frys ar yr agenda hwn, ac felly er ein bod yn pryderu am y tymor hwy rydym hefyd yn gweld yr angen am gamau gweithredu tymor byr, fel y nodir yn y Strategaeth. Dyma'r strategaeth gweithlu gyntaf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n sbardun allweddol ar gyfer cyflawni 'Cymru Iachach'. Ar ôl meithrin ymdeimlad o ddisgwyliad gyda phartneriaid drwy ymgysylltu, mae'n bwysig nad yw momentwm yn cael ei gollu. Byddai oedi sylweddol o ran cyhoeddi neu ddiffyg eglurder ynglŷn â pherchnogaeth camau gweithredu a threfniadau ar gyfer dwyn y rhai sy'n gyfrifol am eu cyflwyno i gyfrif yn siomedig ar y gorau, ond gallai fod yn niweidiol o ystyried y diddordeb eang a'r disgwyliad ar gyfer y strategaeth hon, yn unol â gwledydd eraill y DU, sy'n datblygu eu strategaethau gweithlu yn gyflym. Byddai angen cael strategaeth gyfathrebu gytunedig a byddem yn disgwyl gweld y strategaeth yn cael ei chyhoeddi mewn gwahanol fformatau er mwyn cydnabod ehangder y gynulleidfa y bydd angen ei chyrraedd. Mae hyn yn gyfle i ddefnyddio'r strategaeth fel galluogydd i gyflawni uchelgeisiau 'Cymru Iachach' o ofal di-dor a gwir integreiddio gwasanaethau.

Mae'r strategaeth hon yn cynrychioli newid sylweddol yn y pwyslais a'r dull o gynllunio, recriwtio, datblygu ac arwain y gweithlu. Gellir cefnogi hyn yn rhannol drwy ail-osod adnoddau sy'n bodoli eisoes, ond heb adnoddau penodol i ategu gweithredu ni fydd yr uchelgais a amlinellir yn y strategaeth yn cael ei wireddu. Rydym yn eich argymhell yn gryf i ystyried sefydlu cronfa gweddnewid y gweithlu i gefnogi gweithredu.

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ddatblygu'r strategaeth hon, ac rydym yn hynod falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud gyda'n gilydd. Mae wedi bod yn waith hynod gymhleth ac mae'n glod i'n sefydliadau ein bod wedi darparu drafft cydweithredol o'r fath, a hynny yn brydlon. Byddwn yn ysgrifennu at ein rhanddeiliaid a'n partneriaid i ddiolch iddynt, yn ogystal ag i Keith Moultrie, Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, i gydnabod eu cefnogaeth i'r cyfnodau ymgysylltu. Bydd y Grŵp Llywio yn cael ei sefyll lawr yn dilyn ymarfer "gwersi a ddysgwyd" a bydd y prosiect yn cau ym mis Ionawr.

Byddem yn falch o roi cyngor pellach ar weithredu'r strategaeth gweithlu hon ac edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn ddiffuant,



Mick Giannasi
Cadair GCC



Dr Chris Jones
Cadair AaGIC



Sue Evans
PW GCC



Alexandra Howells
PW AaGIC